# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhifyn 18 Hydref 2018

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Dim tystiolaeth o dorri'r cod | 3 |
| Nid oes angen gweithredu | 5 |
| Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | 7 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 8 |

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(ch) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Gorffennaf i Fedi 2018.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r cod

### Cynor Tref Saltney - Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif Achos 201707925 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy gymryd rhan, a phleidleisio ar, benderfyniad i wobrwyo grant i sefydliad elusennol yr oedd hi'n cadeirio.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod safle'r Cynghorydd fel Cadeirydd y sefydliad yn debygol o fod wedi achosi buddiant personol a rhagfarnus ac felly ni ddylai'r Cynghorydd fod wedi cymryd rhan oni bai bod eithriad wedi'i roi neu ei bod wedi derbyn gollyngiad gan y pwyllgor safonau perthnasol. Canfu'r ymchwiliad bod y Cynghorydd wedi adnabod hyn ac wedi ystyried gwneud cais am ollyngiad. Fodd bynnag, cafodd ei chynghori gan Swyddog Cyngor Sir nad oedd hyn yn rheidiol gan fod esgusodiad ym mharagraff 12(2)(a)(ii) o'r Cod yn berthnasol ac felly roedd yn gallu cymryd rhan. Mae'r esgusodiad hon yn cael ei gymhwyso pan mae'r eitem o fusnes yn ymwneud â chorff cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae gan yr aelod safle o reolaeth neu oruchwyliaeth gyffredinol. Canfu'r Ombwdsmon bod y Cynghorydd felly yn gweithredu'n ddidwyll ar sail y cyngor a dderbyniodd. Felly, daeth i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth yn awgrymu ei bod wedi torri'r Cod.

### Cyngor Sir Powys - Hybu cydraddoldeb a pharch
### Rhif Achos 201701865 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Medi

Derbyniwyd cwyn am ymddygiad aelod ("y Cynghorydd"), yn ystod cyfarfod rhestr fer i drafod ceisiadau ar gyfer swydd pennaeth ysgol newydd.

Cychwynnwyd ymchwiliad i ystyried a oedd y Cynghorydd wedi torri rhannau o'r Cod sy'n ymwneud â pharch, ystyriaeth, bwlio ac aflonyddu, a dwyn anfri.

Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod ac felly, nid oedd angen gweithredu.

### Cyngor Cymunedol Maenorbŷr - Hybu cydraddoldeb a pharch
### Rhif Achos 201708037 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Medi

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi bod yn ddifrïol ar lafar ac wedi bwlio aelod o'r cyhoedd yn ystod cyfarfod Cyngor Cymunedol.

Cychwynnwyd ymchwiliad i ystyried a oedd y Cynghorydd wedi torri rhannau o'r Cod ymddygiad ("y Cod") sy'n ymwneud â thrin eraill gyda pharch ac ystyriaeth, bwlio ac aflonyddu, a dwyn anfri.

Cyfwelwyd pum tyst a'r cydsyniad oedd nad oedd y Cynghorydd wedi dweud nac gwneud unrhyw beth yn ystod y cyfarfod a rhoddodd gormod o bryder iddynt. Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod.

## Cyngor Cymunedol Abertyleri & Llanhiledd - Hybu cydraddoldeb a pharch
## Rhif Achos 201800122 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Awst

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy ddatgelu adnoddau dynol a gwybodaeth gyllidol gyfrinachol.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ar gael iddo, daeth yr Ombwdsmon i gasgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi rhannu unrhyw wybodaeth yn anweddus a, nad oedd unrhyw dystiolaeth y bu torriad o'r Cod.

## Nid oes angen gweithredu

Cyngor Cymunedol Sili & Larnog – Hybu cydraddoldeb a pharch
Rhif Achos 201706912 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Medi

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymunedol Sili a Larnog wedi torri'r Cod ymddygiad drwy anfon ebost at ei gyd-gynghorwyr a oedd yn amharchus ac yn sarhaus am gynghorydd arall.

Cyfwelwyd yr Aelod, yn ogystal â'r Cynghorydd a oedd yn destun i'r ebost a dau aelod arall o'r Cyngor. Yn y cyfweliad, cydnabu'r Aelod nad ddylai fod wedi anfon yr ebost a bod hynny'n amhriodol. Mynegodd yr Aelod edifeirwch am ei weithredoedd a dywedodd na fyddai'n ymddwyn fel hynny eto. Mewn lliniariad, dywedodd yr aelod bod cysylltiadau o fewn y Cyngor yn anodd ar hyn o bryd, a'i fod wedi derbyn sawl ebost beirniadol gan y Cynghorydd dan sylw. Dywedodd yr Aelod nad oedd wedi bwriadu copïo'r ebost i'r holl aelodau'r Cyngor, ond wedi gwneud hynny ar ddamwain, wrth ymateb i ebost bllailaenorol.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod hi'n debygol bod yr aelod wedi torri paragraffau 4(a) a 4(b) o'r Cod, sy'n gwneud hi'n ofynnol i aelodau gynnal eu dyletswyddau gan roi ystyriaeth briodol at faterion cydraddoldeb, a bod rhaid iddynt dangos parch ac ystyriaeth at eraill. Fodd bynnag, o ran y ffactorau lliniaru, edifeirwch yr Aelod a'i ymddiheuriad i beidio ag ymddwyn yn y modd hynny eto, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na fyddai o fudd i'r cyhoedd i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau.

Cyngor Sir Gaerfyrddin – Hybu cydraddoldeb a pharch
Rhif Achos 201606614 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod cyn-aelod o Gyngor Sir Gaerfyrddin ("y Cynghorydd") wedi dwyn anfri ar swyddfa aelod o'r Cyngor oherwydd ymddygiad nad oedd yn dangos parch ac ystyriaeth am eraill. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad y Cynghorydd tuag at Brif Weithredwr y Cyngor a'i hymddygiad tuag at swyddogion y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2016. Ystyriwyd yr ymchwiliad a oedd y Cynghorydd wedi torri paragraffau 4(b), 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad.

Gan na chafodd y Cynghorydd ei hail-ethol yn etholiad Mai 2017, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd y materion yn ddigon difrifol i fod o fudd i'r cyhoeddi i'w ganlyn ymhellach. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu mewn perthynas â'r materion a ymchwiliwyd.

Cyngor Cymunedol Cleirwy– Hybu cydraddoldeb a pharch
Rhif Achos 201704165 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Medi.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar gais gynllunio lleol heb ddatgan buddiannau. Yn ychwanegol, ymchwiliodd yr Ombwdsmon a oedd gan y Cynghorydd feddwl gaeedig pan fynychodd ddau gyfarfod Cyngor Cymunedol ym mis Medi a Hydref 2017.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ar gael iddo, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth fod gan y Cynghorydd fuddiant personol yn y cais cynllunio ac felly dilynwyd nad oedd ganddo fuddiant rhagfarnus. Yn ychwanegol, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y Cynghorydd yn ragdueddol ac nad oedd

yn ragderfynedig pan fynychodd y cyfarfod cyntaf a phleidleisio. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r haeriad bod y Cynghorydd yn ragderfynedig yn yr ail gyfarfod. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i brofi y bu toriad o'r Cod Ymddygiad.

### Cyngor Cymunedol Llai - Gwrthrychedd a phriodoldeb
### Rhif Achos 201702478 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymunedol Llai wedi torri'r Cod Ymddygiad yn ystod cyfarfod. Honnwyd bod ymddygiad yr Aelod wedi bod yn amharchus a'i fod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Honnwyd hefyd bod yr Aelod wedi defnyddio ei safle i ymgynghori anfantais ar breswylwyr lleol a'i fod wedi methu â datgan buddiant yn y mater. Yn olaf, honnwyd bod yr aelod wedi dwyn anfri ar ei swyddfa o aelod.

Ceisiwyd gwybodaeth gan y Cyngor a chynhaliwyd cyfweliadau â thystion y cyfarfod a'r aelod.

Canfu'r Ombwdsmon bod yr aelod wedi gwneud cynrychiolaeth i'r Cyngor ar y mater hwn ar ran ei etholwr. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr aelod wedi defnyddio ei safle i sicrhau anfantais i'r aelod o'r cyhoedd neu, fod ganddo fuddiant yn y mater. Canfu'r ymchwiliad hefyd, er bod yr aelod wedi datgelu gwybodaeth yn ystod y cyfarfod, nid oedd o natur gyfrinachol.

Fodd bynnag, roedd gan yr Ombwdsmon rhywfaint o bryder ynghylch y sylwadau personol a wnaeth yr aelod am aelod o'r cyhoedd wrth gyfeirio at y Cyngor. Nid oedd y sylwadau'n ychwanegu unrhyw werth at ystyriaeth y cyngor o'r mater ac nid oeddynt yn briodol nac yn rheidiol.

O dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, canfu'r Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion a ymchwiliwyd.

### Cyngor Sir Ceredigion – Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif achos 201701091 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf

Cwynodd Mr X fod aelod etholedig o'r Cyngor ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") pan fynychodd cyfarfod a oedd swyddog y Cyngor wedi'i gynghori i beidio ag mynychu. Cwynodd Mr X hefyd am ymddygiad y Cynghorydd tuag at bobl benodol yn y cyfarfod.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon y gŵyn ar y sail y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri paragraffau 8(a), 4(b), 4(c) a 6(1)(a) o'r Cod sy'n ymwneud â dangos parch, ymddygiad sy'n ymdebygu i fwlio, dwyn anfri a rhoi ystyriaeth i gyngor a ddarparwyd gan swyddog Cyngor.

Ni chanfu'r Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi derbyn cyngor gan y swyddog Cyngor i beidio mynychu'r cyfarfod, neu fod y modd y siaradodd â'r rhan fwyaf o'r mynychwyr yn rhagori'r terfynau ymddygiad proffesiynol.

Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon bod modd cadarn y Cynghorydd wedi effeithio un unigolyn yn y cyfarfod a dylai'r Cynghorydd fod wedi addasu ei ymddygiad tuag ato, yn enwedig gan fod y Cynghorydd wedi'i gwrdd yn flaenorol ac wedi'i ddisgrifio fel "nerfus". Er i'r Cynghorydd gael ei atgoffa i newid ei ymddygiad ar gyfer ei gynulleidfa, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad, ar y cyfan, nid oedd o fudd i'r cyhoedd i gyfeirio'r mater at bwyllgor safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru ac felly, ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

# Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

## Cyngor Tref Neyland – Datgelu a chofrestru buddiannau
## Rhif achos 201703026 – Adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") o Gyngor Tref Neyland wedi defnyddio ei safle'n anweddus drwy geisio rhoi terfyn ar brosiect yr oedd y Cyngor tref eisoes wedi cytuno i gefnogi. Honnwyd bod gan y Cynghorydd fuddiant busnes yn y mater.

Derbyniodd yr Ombwdsmon wybodaeth berthnasol am y mater a chynhaliodd gyfweliadau â thystion. Rhoddodd y Cynghorydd ei sylwadau ar y gŵyn ar ddechrau'r ymchwiliad, ond ni ymatebodd i gais i gael ei gyfweld.
Canfu'r Ombwdsmon bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri'r Cod Ymddygiad a chyfeiriodd y mater i gael ei ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Felly, penderfynodd y Cyngor y dylai'r Cynghorydd gael ei geryddu.

Mae penderfyniad y Pwyllgor safonau ar gael yma.

# Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

## Cyngor Sir Fynwy – Hybu cydraddoldeb a pharch

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd ("y Cynghorydd") wedi anfon e-byst i'r achwynwr, wrth weithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cyngor. Roedd yr achwynwr o'r farn bod yr e-byst yn cynnwys sylwadau nad oedd yn dangos parch nac ystyriaeth at aelodau'r gymuned LHDT.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y sylwadau a wnaethpwyd yn ddybryd ac nid oedd unrhyw reswm dros ddefnyddio iaith o'r fath i gael y wybodaeth yr oedd ei angen arno, am y modd y defnyddiodd y Cyngor ei gronfeydd neu hyd yn oed i fynegi ei farn. Canfu'r Ombwdsmon bod y sylwadau a'r iaith a ddefnyddiwyd yn gyfwerth â methiant i ddangos parch ac ystyriaeth am eraill ac roedd tystiolaeth i awgrymu y bu toriad o baragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon y mater at Banel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys.

Daeth y tribiwnlys i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Felly, penderfynodd y tribiwnlys y dylid atal y Cynghorydd o'r Cyngor am gyfnod o ddau fis.

Mae penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru ar gael yma.

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombwdsmon-cymru.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk